# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 7 Rhif 4 Yn rhad ac am ddim Gorffennaf 2026




## Côr Tŷ Tawe

Ar y 15fed o Fehefin roedd Cyfarfod olaf Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt, ond doedden ni ddim yn poeni achos bydden ni'n ail-ddechrau ym mis Hydref. Yn y cyfarfod cyntaf yna byddai pawb yn edrych ymlaen at gael eu swyno gan y gantores Delyth Jenkins a'i thelyn, felly, os dach chi'n byw yn lleol, dewch i fwynhau!

Mae'n draddodiad i gael Côr Tŷ Tawe i ganu i ni ar y noson olaf, ac mae pob un perfformiad yn wahanol, ond dan arweinyddiaeth Edward-Rhys Harry roedd noson arbennig o'n blaenau ni.

Ac roedd popeth yn dechrau efo cân Huw Chiswell 'Y Cwm', y côr i gyd yn canu, am gân i ddechrau yn wir! Wedyn roedd Linda yn dod i'r blaen i ganu 'Tiwn Sol-ffa' cân yn galw am gof perffaith. Wel, roedd y cof yn berffaith, y gynulleidfa wedi mwynhau yn arw a Linda yn haeddu'r holl gymeradwyaeth.

Wedyn wnaeth rhai o'r parti ddod i'r blaen i ganu Ffalabalam - llawer o hwyl ac yn mynd â ni at y côr cyfan yn canu Salm 23 ac wedyn y gân emosiynol 'Anfonaf Angel' cydweithrediad rhwng Hywel Gwynfryn a Robat Arwyn. Yn dilyn hyn wnaeth Catrin ganu 'Colli Iaith', cân arall sydd yn dod â lwmp i'ch gwddw ac yn codi'r cwestiwn - a ydyn ni wir yn gwneud digon i gadw ein hiaith yn fyw?

Dau emyn wedyn gan y côr 'Rwy'n dy weld yn sefyll', gwaith Ann Griffiths, Helen Evans yn canu'r unawd. 'O nefol addfwyn oen', gwaith William Williams Pantycelyn wedyn cyn i ni wrando ar Rex yn canu 'Bugeilio'r gwenith gwyn,' gwrando a gwir mwynhau hefyd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Yn tynnu at y diwedd rŵan a chael un o oreuon Cwmni Theatr Maldwyn ‘Eryr Pengwern. Dw i’n cofio mynd i’r theatr yng Nghaerfyrddin i fwynhau detholiad o’r rhestr hir o’r caneuon sydd wedi dod o’u sioeau nhw. Roedd llond llwyfan o gast a phopeth yn berffaith ond, yn braf iawn i’w ddweud, roedd Côr Tŷ Tawe yn berffaith hefyd!

Ac yng nghanol hyn cawson ni’r cyfle i glywed Llywelyn ar yr ewffoniwm, llanc ifanc talentog a bydden ni’n sicr o’i glywed o eto!

Yr item olaf ar y rhaglen oedd gwaith Waldo Williams ac Eric Jones, sef ’Tangnefeddwyr’ ac mae’r geiriau mor briodol yn y byd sydd ohoni.

Ambell waith nes i gau fy llygaid ac ymlacio a gadael i’r gerddoriaeth lifo trwy fy mhen ac roedd hynny yn bleser pur. Ond roedd emosiwn yn yr holl eiriau hefyd - ‘Y Cwm’, ‘Anfonaf Angel’ ‘Colli Iaith’, Thangnefeddwyr’ ac ‘Eryr Pengwern’ ‘Ein gwlad, ein hanes a’n hiaith. A ydym yn gwneud digon er mwyn cadw'r rhain i fynd? Ydan ni wir?

Roedd y noson yn dangos fod y côr wedi dringo i lefel uchel iawn diolch i waith Edward-Rhys Harry, Fiona Gannon, y cyfeilydd, a brwdfrydedd yr holl gôr.

Ac, i gloi roedd pawb yn sefyll i ganu’r anthem gorau yn y byd, Hen Wlad fy Nhadau, ac yn canu o’r galon gyda theimlad a balchder!

Arbennig, a diolch yn fawr iawn i bob aelod o’r côr am roi noson hollol fythgofiadwy i ni!

## Teledu du a gwyn

gan Rob Evans



Dw i’n ddigon hen i gofio teledu du a gwyn, Dixon of Dock Green a’r Cisco Kid a Pancho. Roedd noson o flaen y teledu'r dyddiau yna yn golygu eistedd mewn ystafell dywyll, codi i droi’r teledu ymlaen ac aros i’r ‘valves’ gynhesu. Dim ond un sianel felly roeddech chi’n gorfod dioddef beth bynnag raglen roedd y BBC yn cynnig. Anghofiwch am eich 55” Smart TV llawn lliw a’r holl gizmos sydd ar gael y dyddiau hyn, roedd rhaid i ni aros 70 mlynedd i fwynhau nhw. ’Remote controls’ llond berfa fawr o sianeli, ‘catch up’ a recordio.

Tydi’r byd wedi newid!

Mae’r dechnoleg tu fewn i’ch teledu yn datblygu trwy’r amser a’r gwerthwyr yn pwysleisio safon y lliwiau, popeth yn siarp a’r sain yn glir.

Ond oes ‘na phwynt? Nagoes wir!

Faint bynnag dach chi’n talu am deledu sydd yn brolio lluniau lliwiog clir a sain berffaith, prin iawn byddech chi’n gallu mwynhau’r fath beth, a dach chi’n gwybod pam. Mae’r cwmnïau yn creu’ rhaglenni ble does neb yn troi golau ymlaen yn y tŷ na chwaith mewn swyddfeydd, hyd yn oed tu allan mae popeth yn gorfod bod yn dywyll ag allan o ffocws.

Hefyd maen nhw wedi dod ar draws ffyrdd o roi pethau dibwys i mewn i lenwi amser.

Dach chi wedi sylwi ar gymaint o weithiau dach chi’n gweld lluniau o’r awyr yn dangos ceir yn mynd ar ffordd hir neu faint o amser mae’n cymryd i gyrraedd y swyddfa. A pheidiwch â sôn am orfod gweld rhywun yn glanhau ei dannedd neu weld rhiant yn dwyn darn o dost oddi wrth blentyn.

Cym on, cwmnïau teledu, maen amser i chi wneud mwy o ymdrech - dydi pobl ddim yn mynd trwy bapurau yn y tywyllwch, does dim rhaid i neb wneud pethau yn y tywyllwch heblaw pan mae hynny'r rhan o’r stori. Trowch y golauymlaen, dysgwch y technegydd sut i roi’r lens mewn ffocws.

Pan dan ni’n chwilio am deledu newydd ac yn trio cael un sydd â llun clir a lliwgar mae o’n rhesymol i ni ddisgwyl yr un peth pan dan ni adref.

Mae’r bobl sydd yn creu’r teledau yn gwneud ei gwaith yn dda. Tynnwch eich bysedd allan crewyr rhaglenni. Mae setiau teledu du a gwyn yn bell tu ôl i ni, mae pawb eisiau rhaglenni lliw a sain glir erbyn hyn.

Beth am ddod ymlaen i 2026 a dod a mwy o liw i’n bywyd? Os gwelwch yn dda!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

# Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

## Anthony Morgan

Shwmae, Anthony ydw i. Dw i'n byw ar arfordir de Lloegr gyda fy nheulu ond dw i'n dod o Gymru yn wreiddiol. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers dwy flynedd a dw i'n ceisio defnyddio fy Nghymraeg cymaint â phosib. Dw i'n aelod o elusen bad achub annibynnol a ro'n i'n aelod gweithredol am sbel cyn roedd rhaid i fi roi'r gorau iddo fe.

Yn fy amser sbâr, dw i'n hoffi darllen ac ysgrifennu, yn enwedig ffuglen-wyddonol. Dw i'n gobeithio cyhoeddi straeon ffuglen-wyddonol Cymraeg fy hun un diwrnod a dw i wedi dechrau ysgrifennu rhai yn barod. Fy hoff beth am ddysgu Cymraeg yw darganfod byd o ddiwylliant newydd i fi, yn enwedig yr amrywiaeth bendigedig o gerddoriaeth Gymraeg. A dw wrth fy modd gydag ysgrifennu ar gyfer Y Wennol bob mis.

## Lauren Marbrow



Lauren dw i. Dw i'n byw yn Sir Gar, rhwng Castell Newydd Emlyn ac Aberteifi. Symudais i yma naw mlynedd yn ôl. Ces i fy ngeni a magu yn Surrey, Lloegr. Arhosais i yn yr un tŷ tan i mi fod yn ddeunaw oed ac yna es i'r brifysgol yn Brighton i astudio Ffisiotherapi. Ar ôl y brifysgol, gwnes i radd meistr mewn Ffisiotherapi Milfeddygol.

Gweithiais i yn y GIG am 16 mlynedd ac roedd busnes ffisiotherapi milfeddygol gyda fi hefyd yn gweithio gyda chŵn a cheffylau (ac weithiau cathod, moch cwta neu geifr!!).

Erbyn hynny roedd fy rhieni wedi symud i Sir Gar a dechreuais i archwilio'r ardal ac roedd yn teimlo fel cartref.

Yn anffodus newidiodd y GIG a'r byd milfeddygol ac roedd hi'n bryd i mi adael.

Roedden ni hefyd yn dechrau teulu felly roedd yr amser yn iawn.

Gadawsom ein swyddi, felly roedden ni angen tŷ gyda'r potensial o fusnes, wnaethon ni ddod o hyd i dyddyn bach gyda dau fwthyn gwyliau.

Felly nawr mae dau fwthyn gwyliau gyda ni ac mae clinig Ffisiotherapi preifat gartref gyda fi (a dau o blant ifanc a dau gi.....prysur prysur!). 'Dyn ni'n ffodus iawn i fyw a magu ein plant yma yng nghefn gwlad hardd Cymru.

## Carol Evans

Helo Carol dw i a fy nghwr ydy Malcolm. Mae Malcolm yn aelod o Gôr Meibion y Bont Faen. Ar 27ain o Ebrill aeth y côr i Penzance i gystadlu mewn cystadleuaeth gyda chorau eraill. Roedd y gwesty a'r bwyd yn dda iawn. Roedd cyngerdd hefyd yn eglwys gadeiriol Truro gyda llawer o gorau eraill. Un o'r corau oedd Côr y Plant o Hradec Kralove, tref yn y Czech Republic. Roedd 400 o blant yn y côr. Ond dim ond 40 oedd yn gallu dod i'r UK ar ôl clyweliad i ddewis y lleisiau gorau. Mae oedrannau'r plant yn amrywio o bump i bymtheg oed.

Un o'r caneuon oedd "Haleliwia". Roedd eu lleisiau yn unigryw. Dim sŵn o gwbl yn y gadeirlan dim ond lleisiau'r plant. Os clywais angylion yn canu erioed, ar y noson honno oedd hi. Roedd llawer o bobl yn y gadeirlan yn sychu eu llygaid. Anhygoel!

Dim ond un pwynt arall a byddai Côr y Bont Faen wedi dod yn drydydd yn y gystadleuaeth. Gweithiodd yr holl gorau yn galed dros y pedwar diwrnod achos roedden nhw'n canu yn llawer o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

leoedd hyd yn oed ar y cei ym Mevagissy. Da iawn pawb!

**Reading**

As I've said before reading is a very important part of learning. In your lessons you get the rules but reading gives you the practical. Get hold of a children's book to start with and work up as your studies progress.

## Alison Holland

Bore da! Alison dw i. Dw i'n byw yn Llanmadoc, Gŵyr. Dw i wedi ymddeol nawr.

Dw i'n bwy mewn tŷ par, gyda fy ngŵr. Mae tri mab gyda ni: un yn byw yng Nghymru, a dau yn byw yn Lloegr. Maen nhw'n briod nawr, ac maen nhw i gyd yn byw gyda'u gwragedd a'u plant. Mae tri mab a chwech o wyrion gyda ni. Maen nhw'n ein gwneud ni'n hapus iawn.

Dw i'n mwynhau darllen - yn enwedig nofelau trosedd! Hefyd, dw i'n mwynhau seiclo, cerdded, a nofio. Eto, dw i'n hoffi coginio, a garddio. Ar hyn o bryd, mae'n rhy oer i nofio yn y môr i fi, ond yn yr haf, byddwn yn ymweld â'r traeth, gyda fy mhlant a nofio yn y môr, gobeithio!

Mae Llanmadoc ar bwys y traeth, a dw i'n hoffi fy mod i'n gallu gweld y môr o fy ngwely bob bore. Dw i'n gwylio haul y wawr a dw i'n gwrando ar yr adar - gwych!

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers blynyddoedd lawer, ond dw i dal ddim yn agos at fod yn rhugl - rhaid i fi weithio yn galetach.

Hefyd dw i'n dysgu darllen gwefusau ac iaith arwyddion - yn Saesneg, achos dw i'n fyddar mewn un glust nawr.

***<u>Alison a phawb arall</u>*** - *peidiwch â phoeni am fod yn rhugl, mae'n bwysicach i fwynhau a defnyddio'r Gymraeg dach chi wedi dysgu. Peidiwch â meddwl am faint mwy o ddysgu sydd o'ch blaen chi, meddyliwch, efo balchder am faint dach chi wedi dysgu. Siaradwch ar bob cyfle, darllenwch lyfrau i ddysgwyr ac ysgrifennwch bytiau bach fel hyn ar gyfer Y Wennol!*

## Diwrnod o hwyl a Sbri

gan Liz Rosser

Roedd y gwanwyn wedi mynd a'r haf yn dechrau cynhesu'r dref. Roedd Sid, Ned a Jerry, hen, hen ffrindiau yn y pentre' yn eistedd ar y fainc yn trio penderfynu beth i wneud. " Beth am daith ar y trên i Ben y Cwm? ", awgrymodd Sid. Cytunodd pawb. "Syniad da iawn. Dydd bant o'r tŷ a golygfeydd gwych o'r trên!"



Y diwrnod wedyn bant â nhw. Roedd y trên yn llawn dop. Unlle i eistedd. Dywedodd Ned, "bydd rhaid i ni sefyll yr holl ffordd! Dw i ddim yn mynd i dalu". "Na fi," cytunodd Jerry a Sid. Pan ddaeth y gard roedd y tri ohonyn nhw wedi diflannu. Ble oedden nhw?

Roedden nhw wedi cloi eu hunain yn y tŷ bach! A BACH yw'r gair! Doedd dim llawer o awyr ffres chwaith!

Unwaith iddyn nhw gyrraedd yr orsaf, agoron nhw'r drws, neidion nhw ar y platfform a rhedon nhw lawr y stryd. O'r diwedd arhoson nhw ger parc, gan chwerthin a phwffian. "Dw i wedi llwgu nawr," cwynodd Ned," Ble mae'r brechdanau?" "Yn y bag," dywedodd Sid. Ble mae'r bag? Gofynnodd Jerry "O na" gweiddodd Ned. "Mae'r bag ar y trên".

Erbyn hyn roedd y trên wedi mynd.



Yn araf iawn cerddon nhw lawr y stryd. "Dim problem," mae 'na gaffi draw yn fanna", gwenodd Ned. " Pwy fydd y gyntaf i gael paned o de?" "O na! Edrychwch! Mae`r caffi AR GAU!"

Gwelon nhw gaffi arall rownd y gornel. "Bydd e'n cau am 2.30." "Faint o'r gloch yw hi nawr"? " 2.20 " Eisteddon nhw ar y palmant. Roedd Jerry bron yn crio. "Dw i wedi cael llond bol nawr".

Yn sydyn dywedodd Sid, "Ble mae Ned? "Edrychwch !" Roedd Ned yn cerdded tuag atyn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

nhw gyda gwen ar ei wyneb. Mae ‘na dafarn dim ond 5 munud i ffwrdd".

"TAFARN! TAFARN!" gweiddodd Sid wedi cyffroi.

"Bydd yn siŵr o fod ar gau," cwynodd Jerry. Cyrhaeddon nhw’r dafarn, "Beth ddwedais i", cwynodd Jerry eto. Ar y drws roedd arwydd AR GAU. Edrychon nhw mewn siom mawr. Ond wedyn clywon nhw glic. Agorwyd y drws ac roedd dyn yn sefyll yno. “Croeso bois! Dw i newydd agor.” I mewn â nhw yn gyflym iawn lle’r oedd byr brydau ac arogl sglodion!



Trwy weddill y dydd roedden nhw wrth eu boddau yn chwarae dartiau a snwcer.

Ar ôl dal y trên i fynd adre roedd pob un ohonyn nhw yn hapus iawn, "dyna oedd y diwrnod gorau erioed. Rhaid i ni ddod yn ôl yn fuan iawn."

"Ond byddai rhaid i ni dalu am y trên, a rhaid i ni gofio am y bwyd a rhaid i ni ....”

Chwarddodd pawb ac aethon nhw adre ar ôl mwynhau eu diwrnod llond hwyl a sbri !

## Chwarae’r Cornet

gan Marie Mills



Cerddor ydw i ymysg sawl peth arall, ond nid o’n i’n ganwr offeryn pres tan ddwy flynedd a hanner yn ôl. Am amser hir ro’n i wedi ystyried dechrau efo un, ond doedd ‘na ddim digon o oriau yn y dydd i wneud popeth fel yr oedd hi.

Wedyn, ym mis Gorffennaf 2023, es i ffwrdd ar daith gerddoriaeth ysgol i Baris – nid achos fy mod i’n athrawes gerddoriaeth, na, ond i gefnogi fy merch sydd yn defnyddio cadair olwyn ac yn canu mewn tri chôr yn yr ysgol.

Roedd y daith yn un unigryw, ac yn llawn heriau (a straeon am amser arall) ond ro’n i’n



sylwi faint o hwyl oedd bod efo aelodau’r band pres. Ro’n i wir eisiau fod yn rhan o rywbeth fel hynny.

Felly, dechreuais chwilio am offeryn addas ac erbyn diwedd yr haf ro’n i wedi dod o hyd i gornet ar Ebay am £75. Disgrifiad y gwerthwr oedd: mae’n un o Wasanaethau Cerddoriaeth Swydd Stafford, sy’n edrych braidd yn fratiog ond yn dal i ganu’n iawn. Perffaith, meddyliais.

Wrth lwc roedd fy ffrind Mary yn awyddus i roi gwersi i mi a bron bob bore Gwener dros y flwyddyn nesa ro’n ni’n cael llawer o hwyl wrth i mi wella fesul tipyn.

Ym mis Ionawr 2025 ro’n i’n barod i ymuno â Band Pres Yarnton ac wedyn, ym Mis Gorffennaf, es i ar daith gerddoriaeth ysgol unwaith eto, i Wlad Belg y tro yma, a ro’n i’n canu mewn band swing. Am hwyl!



Mae’r ferch yn 18 oed erbyn hyn, ond er na fydda i’n mynd ar daith gerddoriaeth ysgol eto, dw i’n dal i ganu’r cornet ac yn cael hynod o hwyl efo fo.

**Reading**

As I've said before reading is a very important part of learning. In your lessons you get the rules but reading gives you the practical. Get hold of a children's book to start with and work up as your studies progress.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Gyda Llaw

gan Patrick Soper

### Ysgolion Pentref

Gwledig yw'r rhan fwyaf o Gymru, diolch byth. Ac o ganlyniad mae gynnon ni hardaloedd lle mae ysgolion pentref yn bodoli o hyd.

Yma yn sir Benfro mae Cyngor y Sir yn ystyried cau un arall eto o'n hysgolion bach - Ysgol Clydau yw'r enw. Yn naturiol mae llawer o bobl leol yn anfodlon i golli'r ysgol oherwydd ei bod yn fudd, nid yn unig i'w plant, ond hefyd i'r gymuned yn gyfan; i raddau mae ysgolion pentref wedi datblygu i fod yn ganolfan i'r gymuned, lle'r oedd y capeli yn arfer bod.

Newyddion da yw bod gynnon ni lywodraeth newydd yn ein Senedd, yn dathlu ei llwyddiant. Felly rwyf wedi anfon e-bost at Blaid Cymru, yn awgrymu iddyn nhw annog Cyngor sir Benfro i beidio â chau'r ysgol hon. Wir, byddai'n syniad da i'r Blaid ddechrau ymgyrch, heb oedi, i achub ein hysgolion pentref ledled Gymru fel rhan o'u dathliadau yn sgil yr etholiad.

Pa mor ddiogel o'r bygythiad o gael eu cau am byth yw'r ysgolion pentref yn eich sir chi?


## Adolygiad o Ffilm Ardderchog

gan Nikita Greedy




Dwi wedi gwylio 'Mrs Brown's Boys D' Movie' sawl gwaith o'r blaen. Gwelais o yn fyw unwaith hefyd, roedd yn wych! Canolbwynt y ffilm yw difyrru oedolion ac mae'r prif gymeriad 'Brendan O'Carroll' yn gwneud hynny mewn ffordd ardderchog. Cafodd ei eni ar 15fed Medi 1955. Yn y ffilm, mae'n chwarae ran 'Agnes Brown' ac mae e'n actor a chynhyrchydd profiadol iawn o Iwerddon.

Perchennog stondin marchnad ydy Agnes Brown, ond mae ei stondin o dan ymosodiad gan ddynion busnes o Rwsia. Roedd ei hen fam-gu wedi benthyg arian ac nad oedd y ddyled wedi cael ei dalu nôl cyn iddi hi farw. Felly mae Agnes yn gorfod talu'r ddyled yn ôl yn ei lle hi. Mae Agnes ar fin gwerthu ei stondin er mwyn datrys y broblem, ond mae ffrind Agnes, Winnie, yn cofio bod ei mam-gu hi wedi gweld mam-gu Agnes yn talu'r bil yn barod. Wrth iddi fynd draw i'r llys, mae Mam-gu Winnie yn cael ei daro gan fws, felly nad oedd tyst gan Agnes mwyach.



Roedd y ffilm yn ardderchog ar bob lefel. Mwynheais i'r olygfa lle'r oedd Agnes yn teithio i'r llys ar asyn, oherwydd roedd yn gwneud y ffilm yn unigryw. Roedd ei merch hi yn sefyll i fyny yn y llys i wneud roi araith annisgwyl hefyd ac yn fy marn i mae'r elfen hwnnw o syndod yn y ffilm yn creu perthynas gref â bywyd go iawn.

Dengys y ffilm fod ysbryd cymunedol yn holl bwysig er mwyn datrys dilema fawr. Crëwyd y ffilm gan ddefnyddio cymysgedd o gomedi a realiti. Dwi'n siŵr byddech eisiau darganfod mwy amdano a does neb yn hoffi aros i'r diwedd, ewch i wylio 'Mrs Brown's Boys D' Movie' heddiw felly!

**Beth am ysgrifennu?**

By writing in Welsh regularly you can only improve your skills, you can look back at what you wrote a year earlier and see your progress. This gives you a spur to keep on and reach higher levels and remember, I always check and correct your work!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Taith Gerdded Heddwch

gan Sara Jones



Tybed eich bod wedi clywed am y Daith Heddwch sydd wedi bod yn digwydd ledled y byd yn ddiweddar. Dechreuodd y daith gerdded heddwch gan grŵp o fynachod Bwdïaidd, yn wreiddiol o Fietnam, ac sydd bellach yn byw yn yr Unol Daleithiau. Maen nhw o'r ganolfan fyfyrdod yn Fort Worth Texas. Dechreuodd y daith gerdded gyntaf ym mis Hydref 2025. Dechreuon nhw bererindod o 2300 milltir o Texas i Washington i hyrwyddo ymwybyddiaeth ofalgar a heddwch. Parhaodd y daith 120 diwrnod gan orffen ym mis Chwefror 2026.

Dan arweiniad bhikku Panakkara, pwrpas y daith gerdded oedd "offrwm ysbrydol" ar gyfer iachâd a thrugaredd cenedlaethol. Roedd tua 15-24 o fynachod Bwdhaidd Theravada yn cerdded tua 20-23 milltir y dydd. Roedden nhw'n arfer cerdded mewn distawrwydd a heb sgidiau pan nad oedd eira. Roedd y mynachod yn dibynnu ar haelioni cymunedau am fwyd a lloches. Tynnodd y daith gerdded sylw sylweddol drwyddi draw.

Dechreuodd yr ail daith gerdded 21-28 Ebrill 2026 yn ddinas hynafol yn Srilanka a gorffennodd yn Kandy. Roedd 13 o fynachod yn cerdded yn ogystal â chi o'r enw "Aloka" sy'n golygu golau, 140 milltir i'r brifddinas Colombo. Roedd y tywydd yn boeth iawn yn Srilanka ac roedd cerdded heb sgidiau yn anodd. Oherwydd bod y ffordd yn mynd yn boeth iawn roedd pobl yn gosod dail banana ac yn chwistrellu dŵr oer ar y ffordd. Ar y dechrau bu'n rhaid trin dau o'r mynachod a'r ci yn yr ysbyty oherwydd traed dolurus.

Yn Srilanka roedd ochr y ffordd yn llawn pobl yn cynnig bwyd a diodydd i'r mynachod. Yn y nos roedden nhw'n cysgu mewn temlau. Roedd presenoldeb y mynachod tawel yn ysbrydoli pobl. Cafodd pobl eu bendithio wrth ochr y ffordd gyda gweddïau tawel. Bendithiodd y mynachod bobl ag anableddau a phlant bach. Cafodd rhai pobl eu symud i ddagrau.

Rhaid adrodd stori'r ci heddwch Aloka hefyd. Mae cannoedd o gŵn crwydr ar strydoedd India. Felly pan oedd y mynachod yn India roedd ci crwydr wedi dod ac ymuno â'r daith gerdded. Daeth y mynachod yn gyfeillgar ag ef ac mae wedi bod gyda nhw ers hynny. Aethant â'r ci yn ôl i America ac mae'n teithio bobman gyda nhw.

Gallwch wylio'r teithiau cerdded heddwch ar YouTube. Yno maen nhw wedi ychwanegu cerddoriaeth hardd a heddychlon i'r cefndir hefyd.

Rydyn ni i gyd yn caru heddwch. Nid yw heddwch yn costio dim. Mae'r mynachod hyn yn lledaenu heddwch am ddim mewn cyferbyniad llwyr â chost rhyfel.

Dywedodd Iesu, "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, canys hwy a elwir yn blant Duw."

Mae'r mynachod yn sicr yn blant i Dduw.

## Argyfwng yn y Mynyddoedd

gan Mike Brown

Rhan 7 - 8



**Rhan** 7

Sylweddolodd fod hyn yn ddifrifol. Beth bynnag sy'n digwydd nesaf, fyddai'n cadarnhau a allai ddianc gyda chyn lleied o risg ac anghyfleustra iddo'i hun ac eraill ag oedd yn bosibl. Fel arall, gallai fod yn dasg fawr i'r tîm achub mynydd lleol. Roedd angen iddo feddwl yn glir. Amser i gymryd stoc.

Agorodd y map eto. Roedd e angen tirnod! Ond doedd dim byd, dim ond gwair a llethr bach. Wel, efallai byddai hyn yn ddigon. Wedi'r cyfan, roedd yn sicr iddo gyrraedd y copa a'i fod wedi cerdded bron 2½ cilomedr ers hynny. Rhaid bod

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

hyn yn ddigon i ddangos ble oedd e. Cymerodd bensil o'i sach a thynnu cylch 2½C o gwmpas y copa. Wedyn, tynnu llinell i'r gogledd i groestorri'r cylch. Roedd hyn ble dylai fod. Ond, roedd yn amlwg nad oedd e. Felly, dechreuodd archwilio tu mewn i'r cylch oedd wedi'i dynnu i geisio gweld tir ar y map a oedd fel y tir o dan ei draed. Roedd yn disgwyl dod o hyd i rywle ychydig i'r dde neu'r chwith o'r disgyniad y bwriadai ei gymryd. Nid oedd dim. Ond, yna, yn y cyfeiriad arall, oedd rhywbeth tebyg. Syllodd arno wrth iddo gymryd hyn i mewn. Mae rhywbeth yn anghywir iawn, meddyliodd.

Roedd y map yn bendant yn gywir. A, dylech chi bob amser ymddiried yn eich cwmpawd. Edrychodd ar ei gwmpawd eto. Nid oedd arwydd o ddifrod. Felly beth oedd e? Craig fagnetig? Na, yn sicr dim yma, braidd yn annhebygol.

Rhedodd trwy ei opsiynau. Byddai gwneud y symudiad anghywir yma yn gwneud pethau'n waeth. Pe bai ond yn gallu gweld! Ond yn y caddug a niwl roedd yn amhosibl.

**Rhan 8**

Beth ddylai ei wneud nawr? Byddai'n siŵr o golli ei wraig yn y man cyfarfod am 5pm Byddai hi'n aros yn amyneddgar am dipyn ond wedyn byddai'n dechrau poeni. Ond nid oedd llawer y gallai ei wneud am hynny. Roedd hi wedi dod yn rhy dywyll i weld y map, felly aeth i mewn i'w sach i ddod o hyd i'w ffagl pen a hefyd cadarnhau fod batrïau sbâr yn ei fag.

Meddyliodd drwy ei opsiynau. Roedd ad-olrhain ei gamau yn un opsiwn. Ond ar ôl cyrraedd y brig, beth nesa? Allai ddim dibynnu ar ei gwmpawd oherwydd ei brofiad diweddaraf felly beth oedd y pwynt? Opsiwn arall fyddai gwe-lywio i'r man y dylai fod yn cyfarfod â'i wraig. Ond i wneud hyn trwy ddilyn y map yn unig, yn y tywyllwch heb gwmpawd byddai'n beryglus iawn. Felly doedd dim byd arall i'w ystyried. Byddai'n gorfod 'bivi' mas dros nos a gweddïo am ddiwrnod clir y bore wedyn.

Edrychodd o gwmpas i ddewis rhywle addas ar gyfer y noson. Yna cymerodd ei babell gwt (bothy tent) o'i sach a'i pharatoi i fod yn barod iddo gropian ynddi. Cysgodfa dros dro oedd hwn i'w defnyddio mewn argyfwng. Does dim polau, dim ond gorchudd cynfas bach, digon o le i ddau berson eistedd.

Wrth eistedd yn dawel yn y tywyllwch, meddyliodd am ei wraig a'i sefyllfa. Roedd hi bron yn bump o'r gloch. Erbyn saith byddai'n galw'r tîm achub mynydd. Erbyn wyth neu hanner awr wedi wyth byddai parti ymlaen llaw o achubwyr yn ymgasglu yn ei fan gorffen ac wedyn cerdded ei daith arfaethedig i'r cyfeiriad arall.




gan Felicity Cleaves

Dim ond yn fy mreuddwydion
y mae fy mhlentyndod.
Ni fyddaf byth yn croesi'r trothwy
neu chwarae yn yr ardd.
Ond mae fy nghartref dal yn bodoli
ar y ffordd dw i'n cofio yn dda.

Symudon ni pan ro'n i'n
un ar ddeg mlwydd oed.
Gadael y lle ble ges i fy magu
a fy nghyfeillion gorau'r byd.
Ond y nant ar waelod yr ardd
dal yn llifo trwy fy mhen.

Ond beth am y plant yr un oedran â fi
a oedd yn byw mewn pentref bach
ar lannau Afon Tryweryn.
Roedd y Capel ac yr Ysgol
y lleoedd pwysicaf eu bywydau
fel fy un i mi.

Yn ystod yr egwyl amser chwarae
bydden nhw'n mynd dros y ffordd
i chwarae pêl-droed yn y dôl
tan glywon nhw'r gloch
yn galw nhw nôl am eu gwersi
gyda'r un athrawes, garedig a chefnogol.

Rhoddodd y crac yn y gloch
sain unigryw iddi hi
fel y dafodiaith Gymraeg
mae pawb yn siarad
ac fel y ddafad yn galw ei hoen
yn y pentref gwledig bach hwn.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Yn sydyn, yr union sylfeini'u bywydau
wedi cychwyn siglo
wrth i beiriannau mawr
cyrraedd yn eu plith
yn cloddio ac yn drilio
yn y dolydd a'r caeau.

Yn y diwedd gorfodwyd pawb i adael
gyda'u dodrefn a'u heiddo
yng nghefn fan.
Clôdd pennaeth yr ysgol y drws
a llithrodd yr agoriad i'w bag
i ymuno â'r gloch yn Sain Ffagan.

Cynhaliodd y capel yr oedfa derfynol
roedd y lle yn llawn,
wrth iddyn nhw ddiolch am y gorffennol.
ac edrych ymlaen at y dyfodol
geiriau'r emyn olaf a'u codasant o'u galar a
rhoddasant obaith iddyn nhw.

“Yma mae beddrodau’n tadau,
Yma mae ein plant yn byw;
Boed pob aelwyd dan dy wenau,
A phob teulu’n deulu Duw
Rhag pob brad, nefol Dad,
Cadw di gartrefi’n gwlad.”*

Yn y misoedd canlynol,
tynnwyd toeau pob adeilad yn y pentref,
a pharhaodd y gwaith ar yr argae.
Er weithiau, iddo gael ei ohirio gan
wrthwynebwyr y cynllun,
nes i'r llifddorau gael eu cau o'r diwedd.

Rŵan mae atgofion plentyndod yn dod i'r amlwg
yn eu meddyliau
o bryd i'w gilydd i'u cynhyrfu
fel gweddillion y pentref
sy'n dal i ymddangos pan fydd y lefel
yn y gronfa ddŵr yn isel.


Ond fe daniodd eu stori
rhywbeth yn ein gwlad.
Mae gennym ni fwy o lais
am ein bywydau yma yng Nghymru
ac mae mwy o gefnogaeth i'r iaith.
Felly, Cofiwch Dryweryn!

** Yr ail bennill o emyn gan Elfed 1860-1953 ‘Cofia’n gwlad, Benllywydd tirion’, Caneuon Fydd Rhif 827. Yr emyn hwn oedd yr olaf i gael ei ganu yng Nghapel y pentref cyn iddo gael ei foddi.*

## Byd Natur – mis Gorffennaf 2026

gan Patrick Soper

Mae’r glöyn byw gweirlöyn brych yn greadur hardd dros ben a ellir ei weld rhwng mis Ebrill a mis Hydref, yn enwedig mewn ardaloedd coetir agored, gyda'r haul yn creu golau brith.




Gweirlöyn Brych

Wedi'i dod o hyd iddo yn gyntaf yn ne-ddwyrain Lloegr yn ystod y 18fed ganrif, mae glöyn byw (neu 'pili-pala' fel rydyn ni'n dweud yn y de) hwn wedi estyn ei gynefin i gynnwys bron pob ardal o Gymru a hanner de-orllewin Loegr.

Gall brychau ar yr adenydd amrywio o dymor i dymor a hefyd yn ddaearyddol. Gan am ddim ond rhyw 20 diwrnod mae’r glöyn yn byw, gall fod cymaint â phedwar cenhedliad o’r gweirlöyn brych o fewn pob blwyddyn. Gwyrdd yw'r lindys a bydd yn cymryd mis i ddod yn aeddfed; gall y rheiny sydd yn deor yn yr hydref oroesi fel arfer drwy'r gaeaf ac ail-ymddangos fel y creaduriaid hardd pan ddaw'r gwanwyn.

*

Un o sawl planhigyn cyffelyb yn y teulu sydd yn cynnwys marddanadl a mintys, mae briwlys y gwrych yn un o’n blodau gwyllt lluosflwydd brodorol. Cyffredin ac ar led drwy gydol Cymru a Lloegr, mae hi'n tyfu hefyd mewn rhan fwyaf o Iwerddon ac ardaloedd iseldir yr Alban.



Briwlys y Gwrych

Caiff briwlys y gwrych gyrraedd taldra o tua 30 modfedd; mae ganddo bigynnau o flodau gwelw borffor atyniadol dros ben rhwng mis Mai a mis Awst, gyda phatrymau gwyn nodweddiadol ar y petal isaf o bob blodyn. Mae'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

blodau'n boblogaidd gyda gwenyn a pheillwyr eraill. Yn debygol iawn yw Cribau San Ffraid, ond heb y patrymau gwyn ar eu blodau.

Mae hi wedi bod yn hysbys ers dyddiau Groeg hynafol bod gan sudd sawl aelod y teulu briwlys rhyw fath o wrth-heintiwr naturiol sydd yn annog clwyfau i wella, yn ogystal ag atal gwaedu.

*

Rydyn ni'n sicr o weld y Ganwraidd Goesgoch wrth ymlwybro ar hyd llwybrau'r cefn gwlad, yn enwedig yn agos i dir âr neu wrth ymyl nentydd.

Dyma flodyn unflwydd brodorol sydd yn tyfu yn gyflym, yn cynhyrchu coesau mor dal â 24 modfedd; ac mae pob un o'r rhain yn cynnal clwstwr o flodau bach coch golau rhwng mis Mehefin a mis Hydref.


Ganwraidd Goesgoch

Tarddle o baill sydd yn boblogaidd gyda llawer o drychfilod, gall y ganwraidd goesgoch gael ei ddod o hyd iddo ledled y DU heblaw ardal mynyddoedd yr Alban.

Yn perthyn i'r canclwm Siapan, mae'r planhigyn hwn yn cynhyrchu hadau a gall ddod yn oresgynnol.

Fel arfer mae gan y dail smotyn tywyll ac, yn ôl un esboniad wedi'i awgrymu gan lên gwerin, dyma le gawson nhw eu pinsio gan y diafol.

## Ydych Chi'n Cofio?
## mis Gorffennaf 1955

gan Patrick Soper

Trwy gydol hanes y byd mae'r rhan fwyaf o wledydd, neu efallai bob un ohonyn nhw, wedi cosbi eu troseddwyr gwaethaf wrth eu dienyddio.

Cafodd Ruth Ellis (Neilson, gynt) ei geni yn y Rhyl ar y 9fed mis Hydref 1926, y pumed o chwe phlentyn. Yn ystod ei phlentyndod symudodd ei theulu i Loegr.

Ar ôl ymadael ysgol yn 14 oed (tua 1940, felly) gwnaeth hi amrywiaeth o swyddi, yn cynnwys yn annerchwraig clwb nos. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a de-ddwyrain Lloegr yn dioddef y Blitz, daeth hi'n feichiog gan filwr o Ganada, a rhodd genedigaeth i fab a alwyd yn Andy.

Yn 1950 priododd hi â deintydd, George Ellis, ond yfai ef i ormodedd ac roedd yn gas tuag ati hi. O fewn tair blynedd daeth y briodas i ben a dychwelodd Ruth i'r cartref teuluol gyda'i rhieni a oedd wedi symud i Lundain erbyn hynny.

Tra oedd hi'n gweithio fel annerchwraig unwaith eto mewn clwb nos yn Llundain, cwrddodd hi â David Blakely. Dechreuon nhw berthynas o ddifrif, ond yn anffodus roedd Blakely mor annymunol ac yn gymaint o niweidiol tuag ati ag oedd George Ellis.

Yn y cyfamser roedd David Blakely a Ruth Ellis ill dau mewn perthnasau gyda chymheiriaid eraill, ond daeth Ruth yn ddig bod Blakely yn treulio cymaint o'i amser gyda'i gyfeillion yn lle gyda hi.

Roedd Ruth wedi cael hen ddigon - mwy na allai hi ddioddef. Un nos dyna hi yn aros y tu allan i'r dafarn lle'r oedd Blakely yn yfed ac yn chwerthin gyda'i gyfeillion. Roedd hi'n barod, gyda dryll yn ei llaw. O'r diwedd daeth Blakely i'r golwg, ac ar fin datgloi drws ei gar; ac, yn ei thymer saethodd ef gyda phum bwled.

Yn ystod ei phrawf gwnaeth hi gyfaddef heb betruso ei bod wedi bwriadu lladd Blakely, a doedd hi ddim yn mynegi gofid am yr hyn roedd hi wedi'i wneud. Dan yr amgylchiadau dyfarnwyd Ruth Ellis yn euog gan y rheithgor ar ôl dim ond 15 munud, ac nid oedd gan y barnwr ddewis ond ei ddedfrydu i farwolaeth gan grogi.

Credir i'r barnwr ysgrifennu'n syth at yr Ysgrifennydd Cartref gan fynnu yr oedd hyn yn 'drosedd o angerdd' ac yn ymbil ar yr Ysgrifennydd am newid y ddedfryd i'w charcharu am oes, a oedd yn arferol i fenywod ar y pryd.

Yn ogystal â hynny, arwyddodd dros 50,000 o bobl ddeiseb yn erfyn am drugaredd, yn enwedig oherwydd gan fod gan Ruth Ellis ferch fach, Georgina, dim ond yn dair blwydd oed. Ond

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref wrthod; er mawr gywilydd i ni fel cenedl, Cymro oedd ef - Gwilym Lloyd George.

At 9 o'r gloch ar ddydd Mercher 13eg mis Gorffennaf 1955 yng ngharchar Holloway yn Llundain daeth Ruth Ellis y fenyw olaf i gael ei chrogi yn y DU.

Roedd hi yn 29 oed.

## Hanes Gwanwyn o'r Weirglodd

gan Tom Pitts-Tucker



Y Weirglodd

Mae'r gwanwyn yn amser hyfryd ar ein tyddyn ni. Mae'r arogl melys trwchus o flodau drain gwynion yn lluwchio ar yr awelon. Mae llawer o drydar yn yr awyr nawr gyda'r tywydd twymach. Y gwennoliaid yn brysur yn hela pryfed dros y weirglodd i'w cywion, pedwar llwglyd ohonynt yn newydd ddeor yn yr ysgubor. Yr ehedyddion yn esgyn a disgyn dros y caeau, yn canu yn ddi-baid wrth fynd i fyny, yn dawel wrth ddod i lawr.

Mae'r weirglodd yn bwysig iawn i ni. Balch iawn ydyn ni taw safle bywyd gwyllt lleol yw hi, cydnabyddedig gan Ymddiriedolaeth Natur Gwent. Rydym yn awyddus iawn i annog natur ar ein tir. Mae Cymru wedi colli 97 y cant o weirgloddiau blodau gwyllt dros y blynyddoedd diweddar. Dim syndod felly bod y nifer o bryfed wedi cwympo yn fwy na hanner. Dyma beth mae llawer o adar angen fel bwyd wrth gwrs. Felly mae'r adar yn diflannu hefyd. Melyn yr eithin, gylfinir a chornicyll, i gyd wedi mynd o'r ardal hon mewn degawd. Ond rhywsut mae natur yn parhau.

Ar adeg yma o'r flwyddyn mae tri blodyn gwyllt yn y weirglodd sydd yn hyfryd iawn i fi. Tegeirian y waun, pys y ceirw a chribell felen. Nid arbenigwr ydw i ond dyma ychydig o wybodaeth am bob un.

**Tegeirian y waun (neu Degeirian Ynfytyn - Green Winged Orchid).**


Y tegeirian cyntaf i flodeuo yn ein caeau. Mae tegeirianau'n arwydd o iechyd y pridd. Maen nhw eisiau cysylltiad rhwng eu gwreiddiau a ffwng arbennig mycorhisa i gael y maethau hanfodol. A hynny dim ond yn bosib ar ôl i'r cae fod heb gael ei aredig neu aflonyddu am amser hir. Hwyrach yn y flwyddyn bydd cannoedd ohonynt yn gorymdeithio'n falch iawn dros ein dôl fel milwyr ar barêd. Mae math arall o degeirian gyda ni fel arfer sydd yn ymddangos ym mis Mai; Tegeirian coch y gwanwyn neu T. Caill-y-ci, neu T. hosanau'r gog (early purple orchid). Mae'r enwau yn y Gymraeg yn ddiddorol a rhai'n ddoniol neu hyd yn oed yn dipyn bach yn goch fel y blodyn ei hunan..



Tegeirian Y Waun

**Cribell felen - 'yellow' neu 'hay rattle'.**

Mae llawer o enwau Cymraeg eraill i'r blodyn hwn: Pwrs y bugail, Arian Gwion, Arian y Pladurwr, Pen Siarad, Clych y Meirch, Cribell Ceiliog, Tegan y Baban. Gyda chymaint o ddewis dylai'r blodyn hwn fod yn bwysig iawn ac mae hynny yn wir. Mae'n broblem i rai ffermwyr ond nid i fywyd gwyllt. Mae cribell felen yn barasitig ar laswellt ac yn ei atal rhag cymryd drosto. Mae hi'n galluogi planhigion eraill fel blodau gwyllt ffynnu. Mae'n amlwg bod rhai o'r enwau yn adlewyrchu'r sŵn o gib hadau yn rhuglo yn y gwynt.



Cribell Felen

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

**Pys y Ceirw - 'Bird's foot trefoil', 'eggs and bacon,' 'granny's toe nails'!**



Pys y Ceirw

Efallai bod ceirw yn hoffi bwyta'r planhigyn bach hwn. Aelod o'r teulu pysen ydy e. Mae'r enw yn Saesneg yn adlewyrchu ei lliwiau, melyn a choch. Mae siâp y dail yn dipyn fel troed aderyn gyda thair crafanc. Mae'r planhigyn yn bwysig iawn fel tarddiad bwyd i sawl lindysyn pili-palod prin iawn, y glesyn serennog (silver studded blue) yn eu plith. Rhywbeth arall diddorol iawn am bys y ceirw yw bod defaid a gwartheg yn cynhyrchu llai o fethan wrth dreulio a chnoi cil. Mae hwn yn bwysig iawn i'r blaned gyfan oherwydd bod newid hinsawdd yn cael ei dylanwadu gan allyriadau nwy tŷ gwydr o amaethyddiaeth. Mae methan yn un ohonynt sydd yn bwerus iawn.

Rydym yn edrych ymlaen at dorri'r gwair ym mis Awst, ar ôl i'r mwyafrif o flodau gosod eu hadau. Weithiau mae'n ras nerfus yn erbyn tywydd gwlyb ond hyfryd iawn fydd ymlacio ar ôl i'r byrnau i gyd fod yn ddiogel yn yr ysgubor. Mae persawr gwair ffres sydd yn eich cyfarch wrth agor y drws yn eich atgoffa chi o'r haf hir poeth ac yn parhau drwy'r gaeaf. Ac mae ein defaid ni'n dwlu ar fwyta'r gwair hefyd.

## Newyddion o Gernyw

gan ein gohebydd
**Lillian Harrison**
4ydd Mehefin 2026

Dwi'n siwr eich bod chi wedi clywed am "Cefnder Jac".

Dyna enw enwog am lawer o lowyr o Gernyw a deithiodd ar draws y byd yn chwilio am waith dros gan mlynedd yn ol.

Yn wir, mae grwp werin o Ddyfnant (Show of Hands) wedi ysgrifennu gân enwog o'r enw "Cousin Jack".

Ar un adeg roedd Cernyw yn cyflenwi hanner o gopr y byd a'r holl dun ym Mhrydain.



Tŷ Peiriant - Siafft Tywysog Cymru
Gwaith cloddio - Phoenix United

Ond yn yr ail hanner o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd mwyngloddwyr craig galed Cernyw wedi lledu ledled y byd, gan gynnwys Awstralia, Ciwba, Periw, Seland Newydd a Newfoundland, i chwilio am waith.

O gwmpas Cernyw, mae hen adeiladau o'r amserau mwyngloddiau tun yn parhau yn y wlad; fel atgof o'n treftadaeth ddiwydiannol. Fel arfer, rydych chi'n gallu gweld y tai injan, simneiau a phentyrrau o wastraff. Ond nawr, yn y sir, mae'r hen ardaloedd mwyngloddio tun wedi'u dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd.

Erbyn hyn, mae Cernyw yn dod yn bwysig eto – ar gyfer ei fwynau – lithiwm a thwngsten.

Mae cwmni o'r enw 'Cornwall Resources Limited' newydd ddechreu gwneud profion ar gyfer twngsten ger Callington yn nwyrain Cernyw, yn agos i'r Afon Tamar. Mae twngsten yn bwysig iawn nawr, achos mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer offer diwydiannol, awyrofod ac amddiffyn. Yn y gorffennol fe'i defnyddiwyd ar gyfer ffilamentau golau.

Hefyd, mae newyddion dda i'r hen ardal gwaith clai china yng nghanol Cernyw. Mae cwmni o'r enw "Cornish Lithium" yn gweithio ar brosiect mwyngloddio lithiwm yn St Dennis, (mewn hen pwll clai) hanner ffordd rhwng Newquay (ar y arfordir gogleddol) a St Austell (ar y arfordir deol). Mae lithiwm yn bwysig ar

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gyfer batris ceir trydan. Mae prosiect lithiwm yn mynd ymlaen yn gyflym; bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio yn 2027; mae'r cwmni eisiau ddechreu torri tir yn 2028

Bydd gwaith medrus newydd ar gyfer dros dri chant o bobl. Fe fydd y prosiect yn cynhyrchu deg mil o dunelli o lithiwm ocsid y flwyddyn, os mae'n mynd ymlaen.

Dwi'n gobeithio bydd Cernyw yn bwysig am ei mwyngloddio craig galed eto. Cyn belled a bod yr effaith amgylcheddol yn cael ei gadw i'r lleiafswm.

Beth ydych chi'n meddwl?

## Cerddoriaeth Gymraeg

gan Anthony Morgan



Un bore glawog, ar ôl don o wres, ro'n i'n gweld eisiau'r haul tra o'n i'n meddwl am ba albwm i wrando arni nesa. Ro'n i eisiau dychmygu bod ar draeth rhywle gwresog, felly ro'n i angen gwrando ar dipyn o reggae. Jamaica yw cartref reggae, wrth gwrs, ond mae hi'n boblogaidd ledled y byd ac mae reggae Cymraeg wedi bodoli ers y saithdegau. Felly, gwrandais ar dri chanwr reggae Cymraeg a dyma nhw.

Roedd Geraint Jarman yn arloeswr ac yn gerddor talentog iawn, yn enwog am greu cerddoriaeth amrywiol ac arbrofol. Rhyddhaodd e lawer o albymau dros ei fywyd, gan gynnwys dosbarthiadau fel roc, pop, dub ac, wrth gwrs, reggae. Dewisais i'r albwm Gwesty Cymru, wedi ei ryddhau yn 1979 a, fel cymaint o'i waith, yn cynnwys mwy nag un dosbarth o gerddoriaeth. Er enghraifft, mae 'Canlyn Arthur' yn teimlo fel tipyn o faled, sy'n cymysgu reggae gyda gwerin cymreig. Wedyn, mae bach o jazz ar ddiwedd y gân 'Amsterdam', ac mae caneuon 'Adar Rhiannon' a 'Neb yn Deilwng' yn fwy arbrofol, fel prog roc. Mae dylanwad reggae yn gryf drwy'r albwm ac ar bob cân, yn enwedig ar 'Byth yn mynd i redeg bant', 'Rocers' a'r trac teitl, sy dal yn gân boblogaidd iawn hyd yn hyn.

Wedyn, Morgan Elwy a'i albwm newydd sbon, 'Amser Da Mewn Amser Drwg'. Cyn-athro o Ddinbych ydy Morgan, wnaeth droi'n gerddor llawn amser yn 2021. Mae e'n canu reggae, dub ac, yn ddiweddar gyda'i sengl 'Amser Da', ska hefyd. Mae 'Amser Da' yn gân "teimlo'n dda", curiad i fyny a phositif, fel y rhan mwyaf o'i gerddoriaeth a gweddill yr albwm. Rhoddodd Morgan ddehongliad ei hun ar reggae traddodiadol gydag elfennau o felan, dub, gwreiddiau ac, wrth gwrs, ska i greu sŵn unigryw ei hun. Mae ei gerddoriaeth yn cynnwys negeseuon am heddwch, positifrwydd a hunaniaeth. Tra o'n i'n gwrando arni, ro'n i'n gallu dychmygu bod ar bwys Y Caribî gyda choctel rỳm - a dyna pam o'n i'n gwrando ar reggae i ddechrau.

Yn olaf, mae Aleighcia Scott yn gantores reggae llwyddiannus a dysgwr Cymraeg ysbrydoledig. Dechreuodd Aleighcia dysgu Cymraeg yn 2022 ac, ers hynny, mae hi wedi dod i fod yn farnwr ar Y Llais a rhyddhaodd ei sengl gyntaf yn Gymraeg. 'Dod o'r Galon', fel gweddill ei cherddoriaeth, yn cymysgu ei gwreiddiau Cymreig a Jamaicaidd i gynhyrchu cerddoriaeth sy'n cynrychioli'r ddwy wlad yn fendigedig. Dilynodd hi'r sengl gyda dau arall a hyd yn oed recordiodd fersiwn newydd 'Hei Mistar Urdd!' gyda Morgan Elwy, Dom James a Lloyd Lewis. Does dim albwm Cymraeg gyda hi eto ond, siŵr o fod, bydd un ar y ffordd cyn bo hir. Yn y cyfamser, mae ei halbwm Saesneg hi, 'Windrush Baby' yn arbennig o dda os dych chi eisiau gwrando ar fwy o'i cherddoriaeth.

Gobeithio, erbyn i chi ddarllen yr erthygl hon, byddai'r haul wedi dychwelyd a fydd dim angen arnoch chi i'w ddychmygu. Beth bynnag, mwynhewch eich cerddoriaeth a thrïwch wrando ar dipyn o reggae Cymraeg os nad ydych chi hyd yn hyn.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Taith beicio Velomaritime Mikeal ac Yvonne Conq



**Dydd Mawrth, Mehefin 24: St Gondran – Brux (42 km)**

**Dydd Mercher, Mehefin 25: Bruz – Rennes (20 km)**

Ar ôl mwy na thair wythnos ddwys o feicio, rydym yn cadw mewn siâp. Mae Yvonne hyd yn oed yn cyfaddef bod beicio dyddiol wedi bod yn fuddiol i'w hiechyd. Yn bersonol, rwy'n meddwl yr un peth! Rydym yn ymwybodol ein bod wedi cwblhau her newydd yn llwyddiannus. Mae gennym lawer o atgofion gwych yn ein pennau, ac fe wnaethom dynnu llawer o luniau. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, byddwn yn creu sioe sleidiau ac adroddiad ysgrifenedig i gofnodi ein profiad gwych!



Brodwaith wedi ei greu gan fy nghyfnither o Rennes


Rydym yn bwriadu cwrdd â rhai o'n cydnabod sy'n byw yn rhanbarth Rennes yn ystod y ddau ddiwrnod hyn: yn gyntaf André a'i bartner Geneviève ym Mordelles, yna fy nghefnder Denise yn Bruz, lle byddwn yn aros gyda'r nos ar y 24ain. Yn olaf, ar y 25ain, cawn groeso gan Jean François, a byddom yn siarad ag ef, wrth gwrs, am Marie-Jo, sydd yn dal yn ein calonnau...

Mae'r daith i Rennes yn gyflym o dan yr haul. Er gwaethaf gwyriad, rydym yn cyrraedd canol y ddinas, ar Boulevard de la Duchesse Anne, gyda Charlotte ac Olivier, a oedd wedi cael eu croesawu gennym yn ystod eu taith i'r Pays des Abers ychydig flynyddoedd yn ôl. Rydym yn cwrdd â Pio, eu newydd-anedig godidog! Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfnewidiadau cynnes a chyfeillgar yn ystod y ddau ddiwrnod hyn yn fawr iawn... Diolch iddyn nhw!



Cyfarfod â ffrind sydd yn byw wrth ymyl tref Rennes

## Y Gwir yn Erbyn y Byd Ymweliad Cymdeithas Hanes Bro Ogwr i'r Bont Faen.




Sefydlwyd taith Iolo Morganwg yn y Bont Faen fel rhan o etifeddiaeth yr Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg yn 2012. Taith 6 milltir ydy o i fyny at Fryn Owain ble mae 'na faen arall. Ond aethon ni am dro bach gyda Gareth Thomas a Carys Whelan gan ddechrau wrth Faen Iolo tu ôl i Neuadd y Gorfforaeth (the Guildhall). Roedd ugain ohonom ni'n dathlu daucanmlwyddiant marwolaeth Iolo. Pan oedd Cerys ac eraill yn cynllunio'r llwybr roedd yr hanesydd, Geraint Jenkins yn dod o Aberystwyth i helpu nhw. Yr oedd o wedi bod yn gyfrifol am ailddarganfod Iolo fel radical gwir. Ar ôl ymchwilio yn archif enfawr Iolo yn y Llyfrgell Genedlaethol roedd Geraint Jenkins, Mary-Ann Constantine ac eraill wedi achub enw Iolo o'r rhagfarn yn ei erbyn a oedd yn dechrau canrif yn ôl.



Sgwrs cyn dechrau

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Pan oedd o'n byw yn Llundain cynhaliwyd yr orsedd gyntaf yn Primrose Hill gan Iolo; tair blynedd nes ymlaen pan oedd o wedi dod adref i'r Bont Faen, cynhaliwyd yr ail orsedd yma. Dyna bwysigrwydd Meini Iolo yn y dref ac ar y bryn. Symudon ni o Faen Iolo i'r Gerddi Perlysiau ble oedd Carys yn ail adrodd hanes y gerddi. Roedd Iolo wedi casglu enwau planhigion, a chasglu meddyginiaeth hefyd, ac roedd Carys yn helpu rhoi enwau Cymraeg i'r planhigion yn yr ardd. Yn ôl cerdd ar y plac wrth y gât, roedd o wedi bod yn defnyddio Laudanum. Ond, roedd Gareth yn pwysleisio, nid fel rhywun caeth i gyffuriau ond i helpu efo poen a salwch fel oedd llawer o bobl yn gwneud cyn oes tawelyddion poen.

Nesaf, aethon ni tuag at Ysgol Gramadeg y Bont Faen. Ni chafodd Iolo ddiwrnod o addysg ffurfiol oherwydd yr oedd ei deulu'n rhy dlawd. Ond cafodd o addysg oddi wrth ei fam, dau reithor a sawl bardd o gwmpas y fro. Dyna sut oedd Iolo yn dysgu sut i gynganeddu. Dysgodd y Rheithor John Walters ieithoedd i Iolo, sef Ffrangeg, Lladin a thipyn o Roeg. Roedd o'n cael help oddi wrth Iolo i gyhoeddi geiriadur cyntaf o Saesneg i'r Gymraeg. Pan oedd Iolo yn teithio o gwmpas y wlad yr oedd o'n casglu tafodaethau a geiriau diddorol. Mae Iolo a John Walters wedi rhoi i'r iaith geiriau dyn ni'n ei ddefnyddio pob dydd: dynoliaeth (humanity), adloniant (entertainment), cerddoriaeth (music), llenyddiaeth (literature), amaethyddiaeth (agriculture).

Saer maen oedd Iolo, a phan oedden ni yn yr Eglwys roedd Gareth a Carys yn dangos i ni dwy gofeb crëwyd gan Iolo, er cof Elizabeth Williams a Thomas Williams, ac er cof meibion ifanc John Walters.



Yn yr Eglwys

Roedd Iolo'n rhan o'r cylch radicalaidd yn Llundain ac roedd ganddo fo syniadau radical trwy ei bywyd. Undodwr oedd Iolo; roedd yr Undodiaid yn radicalaidd crefyddol. I Iolo doedd dim gwahaniaeth rhwng gwleidyddiaeth a chrefydd. Er mwyn ennill iachawdwriaeth roedd rhaid i bob dyn a bob menyw darganfod y ffordd ei hun trwy ddialog gydag un Duw, y Duw personol. I wneud hynny mae rhaid i chi astudio, darllen, sgwrsio, a thrafod, a chael rhyddid i fynegi eich barn. Roedd hynny yn mynd ar groes i'r awdurdodau. Mae'r Beibl yn pledio am heddwch, brawdoliaeth, cyfiawnder, hawliau dynol, rhyddid a chydraddoldeb.



Hen siop Iolo (Costa)

O'r Eglwys aethon ni i siop Iolo. Siop Masnach Teg cyntaf oherwydd doedd Iolo ddim yn fodlon i werthu siwgr neu dim byd oedd yn dod o waith caethweision, 'nothing sweet contaminated with human gore'. Yn y ganrif ddiwethaf roedd dathliad mawr. Roedd Carys wedi bod yn un o'r criw i sefydlu addysg Cymraeg yn y Bont Faen, gan ddechrau yn 1973.

Gorffennon ni yn y Bear ble oedden ni'n ymuno a Gareth i ganu caneuon Iolo. Roedd nofel hanesyddol Gareth, Myfi Iolo (ac yn Saesneg, I Iolo) ar werth ar y diwedd - ac mae'r nofel werth ei ddarllen.

Diolch o'r galon i Gareth a Carys am noson mor fendigedig.

**Geirfa**

**Côr Tŷ Tawe**
Llandeilo Ferwallt - Bishopston
Swyno - to enchant
Cymeradwyaeth - applause
Cydweithrediad - working together
Detholiad - selection
Tangnefeddwyr - peacemakers
Priodol - appropriate

**Anthony Morgan**
Darganfod - to discover

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Diwylliant - culture
Amrywiaeth - a variety
Cerddoriaeth - music

**Lauren Marbrow**
GIG - Gwasanaeth Iechid Cymru
Milfeddyg - vet
Mochyn cwta - guinea pig
Tyddyn - smallholding
Bwthyn gwyliau - holiday cottage

**Carol Evans**
Eglwys Gadeiriol - Cathedral
Unigryw - unique
Cystadleuaeth - competition
Cei - quay

**Alison Holland**
Trosedd - crime
Ar bwys - near to
Darllen gwefusau - lip reading
Iaith arwyddion - sign language

**Diwrnod o hwyl a sbri**
Unlle - nowhere
Siom - disappointment

**Chwarae'r Cornet**
Offeryn pres - brass instrument
Heriau - challenges
Band pres - brass band
Fesyl tipyn - bit by bit

**Ysgolion  pentref**
Gwledig - in the countryside
Canlyniad - result
Bodoli - to exist
Budd - benefit
Canolfan - centre
Ymgyrch - campaign
Ledled - all over

**Mrs Brown**
Difyrru - to amuse
Cynhyrchydd - producer
Profiadol - experienced
Stondin marchnad - market stall
Ar fin - about to
Llys - court
Asyn - ass
Unigryw - unique
Dangos - to show
Datrys - to solve

**Taith Gerdded Heddwch**
Mynachod - monks
Canolfan fyfyrdod - meditation centre
Pererindod - pilgrimage
Hyrwyddo - to promote
Ymwybyddiaeth - awareness
Gofalgar - mindful
Offrwm ysbrydol - spiritual offering
Haelioni - kindness
Lloches - shelter
Trwyddi draw - throughout
Chwistrellu  - to spray
Dolurus - painful
Teml - temple
Anabledd - disablement
Cŵn crwydr - stray dogs
Cyferbyniad - opposite position
Tangnefeddwr - peacemaker

**Argyfwng**
Cadarnhau - to confirm
Anghyfleustra - inconvenience
Tirnod - landmark
Croestorri - intersect
Ymddiried - to trust
Caddug - murky
Ffagl pen - head light

**Byd Natur**
Glöyn byw - butterfly
gweirlöyn brych - speckled wood butterfly
Coetir - woodland
Daearyddiol - geographical
Goroesi - to survive
Briwlys y gwrych - hedge woundwort
Atyniadol - attractive
Peillwyr - pollinators
Cribau San Ffraidd - betony
Hynafol - ancient
Ganwraidd goesgoch - redshank
Tir âr - ploughed land
Nant - stream
Tarddle - source
Trychfil  - insect
Goresgynnol -invasive

**Ydych chi'n cofio?**
Troseddwyr - offenders
Dienyddio - to execute
Annerchwraig - greeter
Beichiog - pregnant
I ormodedd - to excess
Annymunol - undesirable
Niweidiol - injurious
Cydymaith - companion, mate
Dioddef - to suffer
Dryll - pistol
Datgloi - to unlock
Petruso - to hesitate
Mynegi gofid - to show grief
Dyfarnu - to condenm
Rheithgor - jury
Deddfrydu - to sentence
Crogi -  to hang
Trosedd o angerdd - crime of passion

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Carcharu am oes - life imprisonment
Deiseb - petition
Trugaredd - mercy

**Y Weirglodd**
Tyddyn - smallholding
Arogl melys - sweet aroma
Trwchus - thick
Draenen wen - hawthorn
Lluwchio - to drift
Awel - breeze
Trydar - twittering (of birds)
Gwennol - the swallow
Deor - to hatch
Llwglyd - hungry
Ysgubor - barn
Ehedydd - skylark
Esgyn - to rise
Di-baid - incessant
Weirglodd - meadow
Cydnabyddedig - acknowledged
Annog - to encourage
Melyn yr eithin - yellowhammer
Gylfinir - curlew
Cornicyll - lapwing
Tegeirian y waun - green winged orchid
Pys y ceirw - bird's foot trefoil
Cribell felen - yellow rattle
Maeth - nourishment
Hanfodol - essential
Aredig - to plough
Gorymdeithio - to march
Dôl - meadow
Cib - seed shell
Rhuglo - to rattle
Carw - deer
Pysen - pea
Crafanc - claw
Methan - methane
Cnoi-cil - chewing the cud
Lindys - caterpillar
Bwrn - bale
Ysgubor - barn

**Newyddion o Gernyw**
Lledu – to spread
Ledled y byd - all over the world
Mwynau – minerals
Cyflenwi – to supply
Atgof – reminder
Treftadaeth ddiwydiannol – industrial heritage
Pentyrrau – heaps
Craig wrthodedig – rejected rock
Dros gan mlynedd – over 100 years
Offer diwydiannol – industrial instrument
Awyrofod –aerospace
Amddifyn – to defend
Ffilamentau golau – light filaments
Cynllunio – to design
Safle Treftadaeth y Byd – World Heritage Site
Gwaith medrus – skilled work.
Torri tir – break ground (start work)

**Cerddoriaeth Gymraeg**
Don o wres - heatwave
Arbrofol - experimental
Gwerin Gymreig - Welsh folk (music)
Dehongliad - interpretation
Elfennau - elements
Y felan - blues
Ysbrydoledig - inspirational
Barnwr - judge
Cynrychioli - to represent

**Taith beicio**
Buddiol - of benefit
Cydnabod - acquaintances
Gwyriad - diversion
Newydd-anedig - newly born
Cyfnewidiadau - exchanges

**Cymdeithas Hanes**
Sefydlu - to establish
Etifeddiaeth - heritage
Daucanflwyddiant - 200th anniversary
Ailddarganfodd - re-discovered
Ymchilio - to research
Perlysiau - herbs
Meddyginiaeth - medicines
Caeth - addicted to
Tawelyddion poen - painkillers
Ffurfiol - formal
Rheithor - rector
Gynghanedd - a form of verse
Trafodaethau - discussions
Saer maen - stonemason
Cofeb - memorial
Undodwr - unitarian
Gwleidyddiaeth - politics
Crefydd - religion
Iachawdwriaeth - salvation
Mynegi barn - express an opinion
Brawdoliaeth - brotherhood
Cydraddoldeb - equality